Gweithgaredd

Gwylia'r fideo canlynol ac yna ateb y cwestiynau isod.

Consent is everything

1. Mae'r fideo hwn yn siarad am de, ond i beth mae te yn cyfateb?

2. Os oes rhywun yn cytuno i gael rhyw, ydyn nhw wedi cydsynio?

3. Os oes rhywun yn ansicr ynghylch cael rhyw, wyt ti'n gallu eu gorfodi nhw i gael rhyw? Esbonia pam.

4. Petai rhywun wedi cytuno i gael rhyw pan oedden nhw'n ymwybodol, ond yna maen nhw'n anymwybodol, oes gen ti eu cydsyniad nhw i gael rhyw o hyd? Esbonia pam.

5. Wedi gwylio'r fideo, wyt ti'n deall rheolau cydsyniad rhywiol? Esbonia dy ateb.



Mynegai cymorth

Isod mae manylion cyswllt elusennau a mudiadau sy'n gallu rhoi cymorth, cefnogaeth a hyd yn oed lloches os wyt ti'n cael dy gam-drin mewn unrhyw ffordd.

Childline – llinell ffôn 24-awr sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth

Gwefan: www.childline.org.uk
Ffôn: 0800 1111
Instagram: childline_official

Barnardos – cymorth trwy gwnsela

Gwefan: www.barnardos.org.uk
Ffôn: 0800 11 11
Twitter:@barnardos
Instagram: barnardos_uk

CEOP – riportio cam-drin ar-lein

Gwefan: www.ceop.police.uk
Twitter: @CEOPUK

Llamau – elusen cam-drin domestig

Gwefan: www.llamau.org.uk
Ffôn: 02920 239585
E-bost: Enquiries@llamau.org.uk
Twitter: @LlamauUk
Instagram: llamau_uk

Cymorth gyda Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol:

Os wyt ti'n credu y gallai fod gennyt Haint a Drosglwyddir yn Rhywiol (STI) ac rwyt ti'n teimlo gormod o gywilydd i fynd i glinig iechyd rhywiol, galli di archebu pecyn prawf cartref trwy wefan Cymru Chwareus: www.cymruchwareus.org/

Mae'n bwysig dy fod yn parchu teimladau, barn a chred pob un, hyd yn oed os ydyn nhw'n wahanol i dy rai di. Yn ystod y gweithgaredd hwn, paid â theimlo bod rhaid i ti rannu unrhyw beth sy'n dy wneud yn anghyffyrddus. Os oes unrhyw rai o'r testunau yn effeithio arnat, cofia siarad â dy athro neu swyddog diogelu enwebedig yr ysgol.